

Beth sydd bwysicaf i lesiant disgyblion?

Yn 2023/24, fe wnaethon ni ailymweld â 7 ysgol uwchradd ledled Cymru fel rhan o'n gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol. Yn seiliedig ar yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym yn ystod ein hymweliadau cyntaf, gofynnwyd i'r un bobl ifanc raddio 14 eitem o ran pwysigrwydd i lesiant disgyblion. Isod mae crynodeb o'r hyn a ddywedon nhw wrthym.

Y 5 uchaf

'Ffrindiau' oedd y ffactor pwysicaf ar gyfer lles, gyda hanner y grwpiau'n ei roi ar ben eu rhestr. Esboniodd y cyfranogwyr mai ffrindiau oedd y man galw cyntaf am gefnogaeth emosiynol a chlust i wrando, yn ogystal â darparu perthynas lle gallant fod yn ddilys a chael hwyl.

1

Tyr ail ddylanwad a gafodd y sgôr uchaf ar lesiant oedd cael **'Oedolyn y gallwch siarad ag ef'**. Gosododd dros dri chwarter o'r bobl ifanc hyn yn hanner uchaf eu rhestr, gan egluro pwysigrwydd cael rhywun y gallant droi ato pan fyddant mewn angen. Roedd hyn o ran teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi yn yr ysgol, a gwybod y byddai camau gweithredu'n cael eu cymryd ar bryderon.

2

Y drydedd eitem bwysicaf oedd **'Teimlo bod yr hyn rydych chi'n ei ddweud yn gwneud gwahaniaeth'**. Roedd yn bwysig i bobl ifanc fod grwpiau llais y disgybl yn cael eu cymryd o ddifrif gan staff a chyfoedion, a bod adborth i arweinwyr yr ysgol yn cael ei glywed ac yn cael ymateb iddo. Roedd peidio â chael ymateb i adborth yn cael ei brofi fel rhywbeth rhwystredig ac yn ddirymus.

3

Roedd cael **'Swm y gellir ei reoli o waith ysgol, gan gynnwys gwaith cartref'** yn ymddangos fel y pedwerydd eitem bwysicaf, er bod hyn yn amrywio ar draws grwpiau. I'r rhai a'i raddiodd yn uchel, roedd profiadau o straen yn gysylltiedig ag amseriad a bylchau gwaith cartref o wahanol ddosbarthiadau, yn hytrach na'r swm. Cyfeiriodd rhai hefyd at sut roedd gwaith cartref yn ymyrryd â gweithgareddau allgysiol sy'n hybu lles.

4

'Roedd 'cael eich cyflawniadau wedi'u cydnabod' hefyd yn cael ei werthfawrogi'n wahanol iawn ar draws y grwpiau o bobl ifanc y siaradom â nhw. Esboniodd y rhai a'i raddiodd yn uchel sut roedd anogaeth gan athrawon a chael negeseuon wedi'u hanfon adref yn helpu i feithrin hyder, hunan-barch a chymhelliant i roi eu gorau. Fe'i canfuwyd yn rhan bwysig o ddiwylliant a oedd yn sylwi ar aelodau ei gymuned ac yn eu gwerthfawrogi.

5

Beth sydd bwysicaf i lesiant disgyblion?

Y chwech canol

Roedd barn pobl ifanc wedi'i rhannu'n eithaf rhannol ynghylch pwysigrwydd chwech o'r eitemau a oedd yng nghanol y rhestr, a oedd yn cynnwys **'Teimlo bod staff yn gwranddo ar ddisgyblion', 'Cwmselydd ysgol', 'Cyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau', 'Man tawel i ymdawelu / ymlacio', 'Cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol', a 'Toiledau rydych chi'n teimlo'n ddiogel ynddynt'**. Roedd yr amrywiad hwn yn tueddu i fod yn seiliedig ar ffactorau fel profiad personol (e.e. peidio â bod angen cwmselydd ysgol) neu bersonoliaeth (e.e. dewis ymlacio gyda ffrindiau yn hytrach nag mewn man tawel). Pwysleisiodd un grŵp fod yr eitemau hyn yn dal yn bwysig, ond nid cymaint â rhai o'r lleill.



Y 3 gwaelod

12



13



14



Roedd disgyblion yn gyson yn gosod **'Pennaeth' a 'Phennaeth Blwyddyn'** yn isel ar eu rhestrau o'r hyn sy'n bwysig wrth ystyried lles disgyblion. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo bod aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth **yn rhy bell o'u bywyd bob dydd yn yr ysgol**.

Roedd rhai ysgolion lle'r oedd **Pennaethiaid Blwyddyn** yn cael eu gwerthfawrogi'n uwch oherwydd bod ganddynt berthynas agosach â disgyblion. Fe wnaeth un disgybl cydnabod hefyd fod **timau arweinyddiaeth yn y pen draw yn llunio'r holl eitemau eraill** ar y rhestr, ac yn yr ystyr hwnnw mae ganddynt yr effaith fwyaf.